
Dyfodol Plwraliaeth y Cyfryngau yn y DU

Gan gynnwys ymgynghoriad Ofcom ar Adolygu'r
Rheolau Perchnogaeth ar y Cyfryngau

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 15 Mehefin 2021

Dyddiad Cau ar gyfer Ymatebion: 10 Awst 2021

1. Trosolwg

Plwraliaeth y cyfryngau yw conglaen cymdeithas ddemocrataidd sy'n gweithredu'n dda pan fydd dinasyddion yn cael mynediad i ystod eang o safbwyntiau o amrywiaeth o ffynonellau gwahanol a phan nad oes gan unrhyw berchennog neu lais unigol yn y cyfryngau ormod o ddylanwad dros farn y cyhoedd a'r agenda wleidyddol.

Mae dyletswyddau statudol Ofcom yn y maes hwn yn cynnwys sicrhau a chynnal plwraliaeth ddigonol o ddarparwyr gwasanaethau teledu a radio gwahanol. Mae'n ddyletswydd arnom hefyd i adolygu gweithredu y rheolau perchnogaeth ar y cyfryngau a restrir o dan adran 391 Deddf Cyfathrebiadau 2003.¹ Ers i'r dyletswyddau hyn gael eu cyflwyno yn 2003, mae'r ffordd y mae pobl yn hygyrchu newyddion a gwybodaeth wedi newid yn sylweddol. Mae pwysigrwydd ffynonellau newyddion ar-lein wedi tyfu'n ddramatig, gan yrru newidiadau yn ein harferion defnyddio - yn enwedig ymysg pobl ifanc - ac mae'r cyfryngau cymdeithasol, peiriannau chwilio a chydgrynhoi newyddion yn gweithredu'n gynyddol fel cyfryngwyr rhwng cynnwys newyddion a defnyddwyr.

Nid yw rheolau perchnogaeth ar y cyfryngau - sy'n canolbwyntio ar berchnogaeth ar ffurfiau traddodiadol ar y cyfryngau - wedi esblygu i gymryd y newidiadau hyn i ystyriaeth. Felly, rydym yn lansio rhaglen waith newydd - gan ddechrau gyda Galwad am Dystiolaeth - i ddeall beth mae plwraliaeth y cyfryngau'n ei olygu yn yr 21ain ganrif, gan edrych y tu hwnt i reolau perchnogaeth ar y cyfryngau presennol. Bydd hon yn archwilio natur pryderon am blwraliaeth yn y dirwedd cyfryngau newyddion sydd ohoni ac yn ystyried a oes angen ymyriadau newydd.

Wrth gyflawni ein dyletswyddau i adolygu'r rheolau perchnogaeth ar y cyfryngau bob tair blynedd a roddwyd ar waith gan Senedd y DU², rydym wedi dod i'r casgliad dros dro eu bod yn parhau, yn rhannol, i gefnogi'r amcan polisi o sicrhau bod y cyfryngau'n gweithredu er budd y cyhoedd. Fodd bynnag, rydym yn argymhell rhai newidiadau i'r rheolau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r cyflenwad, a'r galw am, newyddion yn y farchnad bresennol.

Beth rydym yn ei gynnig - yn gryno

Dyfodol Plwraliaeth y Cyfryngau yn y DU: Cais am Dystiolaeth

Er mwyn cyfeirio ein camau nesaf ar blwraliaeth y cyfryngau yn y DU, rydym yn ceisio barn am dri maes penodol:

- rôl **cyfryngwyr ar-lein** a'r **defnydd o algorithmau** i gyflwyno newyddion i ddefnyddwyr yn y DU, y mae'r ddau ohonynt yn herio ein gallu i fesur plwraliaeth y cyfryngau a nodi pryderon posib;
- **newidiadau yn y farchnad** y tu hwnt i gyd-destun gyfuniad y cyfryngau, megis ymadawiad cynyddol â'r farchnad neu dwf organig yng nghyfran y farchnad, a sut mae, neu ba un a fyddai, newidiadau i'r cyd-destun marchnad ehangach o bosib wedi cynyddu'r angen am ystyried pryderon plwraliaeth y tu allan i gyd-destun cyfuniad cyfryngau penodol; ac

¹ Adran 3(2)(d) Deddf Cyfathrebiadau 2003.

² Adran 391 Deddf Cyfathrebiadau 2003.

- **unrhyw nodweddion eraill o dirwedd cyfryngau newyddion y DU** a allai godi goblygiadau o ran defnydd o'r newyddion yn y DU neu a allai godi pryderon posib o ran plwraliaeth.

Adolygiad o'r Rheolau Perchnogaeth ar y Cyfryngau: Ymgynghoriad

Rydym yn ceisio barn gan bartion sydd wedi'u heffeithio gan neu sydd â diddordeb yn yr argymhellion a ganlyn:

Rheolau mewn perthynas â Channel 3: Rheolau Perchnogaeth ar draws y Cyfryngau a Darparwr Newyddion penodedig

- Rydym yn cynnig bod yr Ysgrifennydd Gwladol, am y tro, yn **cadw'r Rheol Perchnogaeth ar Draws y Cyfryngau a'r Rheol Darparwr Newyddion Penodedig**.
- Rydym yn ystyried bod y rheol perchnogaeth ar draws y cyfryngau genedlaethol yn parhau i chwarae rôl bwysig wrth ddiogelu plwraliaeth o fewn y fframwaith presennol ac yn cyfyngu ar y potensial i endid cyfunol gael dylanwad amhriodol. Mewn modd tebyg, mae'r rheol darparwr newyddion penodedig yn gwarantu gradd o blwraliaeth mewn darpariaeth newyddion gyfanwerthol - gan sicrhau bod darparwr penodedig newyddion Channel 3 yn ddigonol ei raddfa i gystadlu ac atal grŵp papurau newydd mawr rhag gweithredu fel darparwr penodedig Channel 3.

Prawf Buddiant y Cyhoedd yn y Cyfryngau

- Rydym yn argymhell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol **ehangu cwmpas fframwaith Prawf Buddiant y Cyhoedd yn y Cyfryngau** sydd eisoes yn bodoli, ac yn awgrymu sawl ffordd y gellir cyflawni hyn.
- Rydym yn ystyried bod y prawf buddiant y cyhoedd yn y cyfryngau'n parhau i chwarae rôl olaf un bwysig wrth sicrhau plwraliaeth y cyfryngau. Fodd bynnag, nid yw cwmpas presennol y rheolau ond yn ymdrin ag ystyriaethau buddiant y cyhoedd o ran cyfuniadau sy'n ymwneud â darlledwr a/neu fenter papur newydd printiedig. Rydym yn ystyried y byddai sail buddiant y cyhoedd sy'n cofnodi ystod ehangach o "grewyr newyddion" yn adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn hygyrchu ac yn defnyddio newyddion yn well. Rydym yn bwriadu ehangu cwmpas ystyriaethau buddiant y cyhoedd penodol yn y Prawf Buddiant y Cyhoedd yn y Cyfryngau i alluogi ymyriad gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas ag unrhyw gyfuniad yn y cyfryngau (y tu hwnt i bapurau newydd printiedig a darlledwyr) yn ymwneud â "chrewyr newyddion" sy'n cwrdd â throthwyon yr awdurdodaeth.

Y Cyfyngiadau ar Bobl sydd wedi'u Diarddel

- Rydym yn argymhell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ddileu'r **gwaharddiad dewisol ar gyfer cyrff crefyddol**, y **gwaharddiad ar asiantaethau hysbysebu**, y **gwaharddiad ar gyrff a ariennir yn gyhoeddus** a'r **diarddeliad cyffredinol ar sail dylanwad amhriodol ar gyfer cyrff a ariennir yn gyhoeddus**. Rydym yn ystyried bod datblygiadau ac amddiffyniadau marchnad a ddarperir gan rannau eraill o'r fframwaith rheoleiddio'n golygu nad oes angen y cyfyngiadau hyn bellach.
- Rydym yn argymhell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol **gadw'r cyfyngiadau eraill** ar bwy all ddal trwyddedau darlledu, gan gynnwys y **gwaharddiad annewisol ar gyfer cyrff crefyddol**, y **gwaharddiadau ar gyfer cyrff gwleidyddol ac awdurdodau lleol**, y **gwaharddiadau ar gyfer y BBC, S4C a Channel 4 Corporation**, y **diarddeliad cyffredinol ar sail dylanwad amhriodol ar gyfer cyrff gwleidyddol ac awdurdodau lleol** a'r **cyfyngiadau ar drwyddedau radio cymunedol analog**.

Mae adran drosolwg y ddogfen hon yn grynodeb lefel uchel wedi'i symleiddio'n unig. Disgrifir y cynigion yr ydym yn ymgynghori arnynt a'n sail resymegol drostynt yn y ddogfen lawn.

Mae'r rheolau yr ydym yn edrych arnynt trwy'r adolygiad hwn yn rhai amddiffynnol eu natur yn y bôn; maent wedi'u dylunio i atal gweithredoedd a fyddai'n lleihau plwraliaeth y cyfryngau rhag digwydd. Cyn bo hir byddwn hefyd yn cyhoeddi ein datganiad ar sut i sicrhau dyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ("CGC")³ er budd cynulleidfaoedd, gan gynnwys hyrwyddo plwraliaeth y cyfryngau mewn byd ar-lein.

³ Ofcom: *Ymgynghoriad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr: Dyfodol Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus*: <https://www.smallscreenbigdebate.co.uk/cymru/consultation>